

## Ar gyfer bob oed: Syrpreisys y Pasg

Bwriad: I edrych ar rai o'r pethau annisgwyl a ddigwyddodd adeg y Pasg (y *siocs* a'r syrpreisys). I ystyried profiadau disgyblion a ffrindiau eraill Iesu yn ystod cyfnod ei groesholiad a'i atgyfodiad.

### Adnoddau

- Deilen Palmwydd (wedi ei dorri o gardbord neu bapur)
- Tywel
- Bara
- Croes
- Crys gwyn
- Wŷ Pasg '*The Real Easter Egg*' neu '*The Real Sharing Box*' (mae'r rhain yn wyau Pasg Masnach Deg; yn rhoi arian i elusen ac yn rhoi'r neges am y Pasg Cristnogol).

### Trosolwg

1. I drafod rhai ffeithiau diddorol am wyau Pasg. Mae croeso i chi addasu'r sgript i'w wneud yn fwy addas i'ch cynulleidfa ac i'r rhai sy'n cymryd rhan. Ond cofiwch gadw'n ffyddlon at brif neges y darn.
2. “**Wyt** ti'n disgwyl cael wyau Pasg eleni? **Pwy** sydd eisiau dyfalu faint o wyau Pasg fydd yn cael eu prynu ym Mhrydain flwyddyn yma? 80 miliwn!! **Mwy** o wyau Pasg na sy'n na o bobl! Ydy hynny'n swnio'n ormod o wyau i chi? Efallai eich bod chi'n meddwl fod hynny'n **wych**! Faint ohonoch chi sy'n edrych ymlaen at gael wŷ Pasg?

Ond, cofiwch chi, mae'n beth od ein bod ni'n cael wyau'r adeg yma o'r flwyddyn. Does dim sôn am wyau yn y Swper Olaf fwytodd Iesu gyda'i ddisgyblion.

Pam felly ydyn ni'n rhoi a derbyn wyau ar Sul y Pasg? Mae yna bob math o resymau.

- Daeth Iesu'n ôl yn fyw ar Sul y Pasg ac mae wŷ yn symbol o fywyd newydd a gobaith.
- Mae rhai'n meddwl fod yr wyau sy'n wag tu mewn yn atgoffa pobl o'r bedd gwag ar ôl i Iesu atgyfodi. Mae rhai hefyd yn meddwl fod siâp yr wŷ yn debyg i siâp y garreg a roliwyd ar draws geg y bedd i'w gau'n dynn.

- Ac mae eraill yn meddwl fod yr wyau yn gysylltiedig â chrempog. Ydy hynny'n eich synnu chi? [*Cofiwch ddefnyddio'r geiriau tafodieithol e.e. pancos, ffrois ayb*]

Crempog? Pam tybed? Ar ddydd Mawrth Ynyd (neu Ddydd Mawrth Crempog) yr arferiad oedd bwyta pob math o fwydydd a danteithion cyn dechrau ymprydio. Roedd ymprydio'n rhan o'r Grawys, y 40 diwrnod sy'n arwain at y Pasg. Roedd Cristnogion yn defnyddio'r holl wyau a bwydydd moethus oedd ganddyn nhw yn y tŷ cyn i'r Grawys gychwyn. Doedden nhw ddim yn bwyta wyau na chig coch nes y Pasg.

Erbyn hyn wyau siocled ydy wyau Pasg ac mae pobl yn stopio bwyta pethau eraill yn ystod cyfnod y Grawys - e.e. creision, losin neu fisgedi. Mae rhai pobl yn gweddïo bob dydd yn ystod y Grawys neu'n codi arian ar gyfer elusen. Mae Cristnogion yn gwneud gwahanol bethau i baratoi am y Pasg. Fe gafodd disgyblion Iesu wythnos o *siocs* a syrpreisys yn arwain at Sul y Pasg. Beth am i ni feddwl mwy am be ddigwyddodd iddyn nhw?

3. Dwedwch eich bod chi am ddangos gwahanol eitemau sy'n gysylltiedig â Hanes y Pasg a'r digwyddiadau yn ystod yr wythnos oedd yn arwain at Sul y Pasg.

Gofynnwch i'r gynulleidfa pa ran o hanes y Pasg sy'n cael ei gynrychioli gan y gwahanol eitemau. Hefyd, gofynnwch iddyn nhw ddychmygu sut fyddai'r disgyblion wedi teimlo yn ystod y rhan yna o'r hanes. Efallai yr hoffech chi ddarllen rhannau o'r Beibl, neu ddweud yr hanes wrth y gynulleidfa.

**Y Ddeilen Palmwydd:** Sul y Palmwydd / Sul y Blodau/ Marchogaeth i mewn i Jerwsalem

Darlleniad: Ioan 12:12-13

Cyfle i feddwl / myfyrio: O Dduw, rydyn ni'n gallu dychmygu mor gyffrous oedd y disgyblion wrth weld Iesu'n marchogaeth i mewn i Jerwsalem ar gefn asyn. Roedden nhw'n gweld y dorf ac yn eu clywed yn gweiddi'n llawen. Helpa ni i gofio bod Iesu wedi dod yn dy enw Di, a dy fod ti wedi cyfodi Iesu o farw'n fyw. Diolch am dy gariad mawr tuag aton ni.

**Y Tywel:** Golchi traed y disgyblion

Darlleniad: Ioan 13:12-15

Cyfle i feddwl / myfyrio: Arglwydd, wrth i Iesu blygu o flaen y disgyblion a golchi eu traed rydyn ni'n siŵr eu bod nhw mewn sioc. Roeddet ti'n eu dysgu i wasanaethu ei gilydd ac i garu ei gilydd, fel roeddet ti wedi eu caru nhw. Helpa ni i wasanaethu'r bobl sy'n rhan o'n cymdogaeth, yn enwedig y rhai sy'n dioddef ac mewn angen. Helpa ni i ddangos Dy gariad Di i eraill ac i roi syrpreis i bawb pan rydyn ni'n gweithredu yn dy enw Di.

### **Y Bara:** y Swper Olaf

Darlleniad: Mathew 26:26

Cyfle i feddwl / myfyrio: Yn ystod ei Swper Olaf dwedodd Iesu y byddai'n cael ei fradychu ac y byddai'n marw. Doedd y disgyblion ddim eisiau clywed y fath beth! Ond wrth dorri'r bara a thywallt y gwin fe roddodd Iesu ffordd iddyn nhw gofio ei farwolaeth ar y Groes. Pan rydyn ni'n dod at ein gilydd helpa ni i deimlo dy bresenoldeb Di, ac i gofio bod llawenydd yr atgyfodiad wedi dilyn tristwch y Croeshoelio. Mae'r llawenydd hwnnw ar gael i bawb sy'n dy ddilyn Di.

### **Y Groes:** Marwolaeth Iesu

Darlleniad: Ioan 19:25-30

Cyfle i feddwl / myfyrio: Pan fu farw Iesu ar y groes roedd ei ffrindiau a'i deulu yn drist iawn. Ond hyd yn oed ar y Groes roedd Iesu'n meddwl amdanyn nhw. Gwnaeth yn siŵr bod un o'i ffrindiau gorau yn gofalu am ei fam. Helpa ni i ddilyn yr esiampl hynny, i feddwl am rai sydd wedi colli anwyliaid. Rydyn ni'n cofio mewn tawelwch y rhai sydd wedi colli aelod o'r teulu neu ffrind agos. Rydyn ni eisiau iddyn nhw gael eu cysuro gan gariad bobl eraill tuag atynt.

### **Crys Gwyn:** Yr angel wrth y bedd

Darlleniad: Luc 24:1-6

Cyfle i feddwl / myfyrio: Roedd y merched wedi dychryn, wedi cael sioc, pan welon nhw'r angel wrth y bedd. Wrth glywed y neges bod Iesu wedi atgyfodi'n fyw fe aethon nhw ar frys i ddweud y newyddion da wrth y disgyblion. Helpa ni i rannu sioc a chynnwrf y Pasg Cristnogol, er mwyn ni deimlo dy bresenoldeb byw yn ein bywydau bob dydd.

Yr Ŵy Pasg (*Meaningful Chocolate - The Real Easter Egg*) - gofynnwch a oes rhywun yn cofio pam ein bod yn cael wyau adeg y Pasg.

Eglurwch eu bod yn symbol o fywyd newydd; ac eu bod yn ein hatgoffa o'r bedd gwag, a bod rhannu wyau adeg y Pasg yn arwydd bod y Grawys wedi gorffen, bod Sul y Pasg wedi cyrraedd a bod Iesu am fod gyda ni am byth.

Gweddi i orffen:

Ein Tad, diolch am atgyfodiad Iesu. Rydyn ni'n gwybod dy fod ti eisiau i ni ddangos cariad tuag at ein gilydd. Mae dy gariad Di yn gryfach na marwolaeth. Helpa ni i wasanaethau ein gilydd gyda chariad a llawenydd. Amen.